

Concordat rhwng y corfforaethau sydd
yn arolygu, rheoli ac yn archwilio iechyd
a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

cefnogi gwelliant iechyd
a gofal cymdeithasol

dileu beichiau
dianghenrhaid

Gweithio gyda'n gilydd



ACADEMI O GOLEGAU BRENHINOL YNG NGHYMRU
ACADEMY OF ROYAL COLLEGES IN WALES

Healthcare Inspectorate [Wales](#)
Arolygiaeth Gofal Iechyd [Cymru](#)



CONCORDAT RHWNG Y CORFFORAETHAU SYDD YN ARCHWILIO, RHEOLI AG YN AROLYGU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

G/006/05-06


ISBN 0 7504 3798 7

CMK-22-12-036


Cysodwyd mewn teip 12pt

© Hawlfraint y Goron 2005

Llofnodwyr y Concordat



Peter Higson
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru




Graham Williams
Arolygiaeth Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru



Rob Pickford
Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru



Gillian Body
Swyddfa Archwilio Cymru




Gren Kershaw
Cronfa Risg Cymru




Richard Williams
Academi Colegau Meddygol
Brenhinol Cymru




Terry Rose
Yr Awdurdod Gweithredol
Iechyd a Diogelwch



Anna Walker
Y Comisiwn Gofal Iechyd



Chris Heginbotham
Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl



Paul Streets
Bwrdd Addysg a Hyfforddiant
Meddygol i Raddedigion

Llofnodwyr Cyswilt y Concordat



Michael Ponton
Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru



Peter Johns
Y Cyngorau Iechyd Cymuned



Neil Davies
Ystadau Iechyd Cymru



Steve Thomas
Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru



Simon Smail
Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol
i Ôl-raddedigion, Coleg Meddygaeth,
Bioleg, Gwyddorau Bywyd a Iechyd
Cymru Prifysgol Caerdydd

Rhagair

Mae datblygiad y Concordat hwn rhwng cyrff sy'n arolygu, rheoleiddio, archwilio ac yn cynghori ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn darparu fframwaith ar gyfer nodi a gweithredu camau i hybu'r gwaith o wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd, a chael gwared ar y baich diangen y gall rhaglenni arolygu ei osod ar staff.

Mae'r Concordat hwn yn adeiladu ar y cydweithio sydd eisoes yn bodoli rhwng cyrff sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio yng Nghymru ac yn cynnig cyfleoedd eglur iawn ar gyfer y cyrff hyn i barhau i gydweithio mewn modd cadarnhaol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau ac i gael gwared ar feichiau diangen sy'n gysylltiedig ag ymweliadau, gwaith casglu data a gwaith dilynol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwbl ymrwymedig i wella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yng Nghymru¹ yn ogystal â gwella gwasanaethau ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'n croesawu Concordat Cymru, ac mae'n disgwyl ei weld yn ganolog wrth helpu darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion, cleientiaid a'u gofalwyr. Yn ogystal, bydd yn disgwyl gweld effaith sylweddol a mesuradwy ar gydgyssylltiad ac effeithiolrwydd rhaglenni archwilio ac arolygu yng Nghymru.




Ann Lloyd
Pennaeth, Yr Adran Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Prif Weithredwr, GIG Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru



Dr Brian Gibbons AC
Gweinidog dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

¹ Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru



Cynnwys

Cyflwyniad	1-4
Amcan Un Caiff adolygiadau allanol eu cydgysylltu ag adolygiadau a chasgliadau eraill o ddata	5-6
Amcan Dau Mae adolygiadau allanol o iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar brofiad cleifion, defnyddwyr gwasanaethau eraill a gofalwyr	7
Amcan Tri Mae adolygiadau allanol yn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad	8-9
Amcan Pedwar Mae cyrff adolygu allanol yn gwella eu dulliau yn barhaus	10-11
Amcan Pump Mae adolygiadau allanol yn annibynnol, yn gyson a theg	12
Amcan Chwech Mae adolygiadau allanol wedi'u targedu ac maent yn gymesur	13
Amcan Saith Mae adolygiadau allanol yn dryloyw ac yn atebol	14
Amcan Wyth Mae cyrff adolygu allanol yn defnyddio dulliau cydgysylltiedig a chymesur o weithredu	15
Amcan Naw Mae Adolygwyr Allanol yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau addas ac wedi'u hyfforddi'n briodol	16
Amcan Deg Mae cyrff adolygu allanol yn monitro eu harferion yn barhaus yn unol â'r concordat	17-18

Atodiad 1	
Llofnodwyr y Concordat	19
Atodiad 2	
Llofnodwyr Cyswllt y Concordat	20
Atodiad 3	
Geirfa'r Concordat	21-22
Atodiad 4	
Cylchoedd Gwaith y Llofnodwyr	23-28

CONCORDAT RHWNG Y CYRFF SY'N AROLYGU, RHEOLEIDDIO AC ARCHWILIO IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Gwella Gwasanaethau - Cael Gwared â Beichiau Diangen

Cod o amcanion ac arferion y cytunwyd arnynt gan gyrff sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

1. Mae'r Concordat hwn yn nodi'r egwyddorion a'r arferion y mae'r gyrff sy'n arolygu, rheoleiddio, archwilio ac yn cynghori ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cytuno arnynt². Mae'n ategu rhaglen i ddatblygu ac i weithredu polisiau i'w harolygu, eu rheoleiddio a'u harchwilio (cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel "adolygiad allanol" yn y ddogfen hon), sy'n seiliedig ar amcanion ac arferion cadarn sydd wedi'u cynllunio i hybu'r broses o wella gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd ac i gael gwared â beichiau diangen adolygiadau allanol ar staff y rheng flaen.

Statws

2. Mae'r Concordat:

- wedi cael ei gymeradwyo gan y llofnodwyr a nodir yn Atodiad 1 ac fe'i cefnogir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
- hefyd yn cael ei gefnogi gan nifer o gyrff cynrychioliadol eraill sydd yn Atodiad 2
- yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu fel sy'n cael ei nodi yn *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*
- yn adlewyrchu, lle bo'n briodol, nifer o'r egwyddorion a'r arferion sydd yn y Concordat rhwng gyrff sy'n arolygu, rheoleiddio ac archwilio gofal iechyd yn Lloegr.

² At ddiben y Concordat, caiff y rhain eu diffinio fel: Arolygiaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru); Swyddfa Archwilio Cymru; Cronfa Risg Cymru; Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru; Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; Y Comisiwn Gofal Iechyd; Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl; Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion

3. Mae'r Concordat yn ymwneud yn bennaf ag arolygu, rheoleiddio, archwilio a chynghori cyrff yng Nghymru.

Nodau

4. Nod craidd y Concordat yw hybu'r gwaith o wella gwasanaethau ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr tra'n cael gwared â beichiau diangen adolygiad allanol ar staff y rheng flaen.

Amcanion

5. Mae'r Concordat yn nodi deg amcan a'u nod yw sicrhau y ceir cydweithio mwy effeithiol a chydgyssylltu rhaglenni adolygu allanol er mwyn helpu i wella gwasanaethau tra'n cael gwared â beichiau arolygu diangen ar staff sy'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Concordat hefyd yn gyson â'r angen i ddsbarthu arfer da a ganfyddir ac yn adeiladu ar yr arfer hwnnw.

6. I ategu pob un o'r amcanion hyn, ceir nifer o arferion a fydd yn helpu i sicrhau y cânt eu cyflawni. Bydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu arferion o'r fath yn ystyried:

- cylchoedd gwaith statudol a safonau proffesiynol perthnasol cyrff adolygu allanol
- cytundebau ffurfiol ac anffurfiol sydd eisoes wedi'u datblygu rhwng cyrff adolygu allanol
- i ba raddau y mae arferion penodol yn galluogi cyrff i gyflawni eu swyddogaethau unigol/ar y cyd yn well
- effaith gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu o safbwynt y defnyddiwr gwasanaethau.

7. Mae nifer o'r egwyddorion a'r arferion a nodir yn y Concordat yn gyson â chanllawiau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi gan y llofnodwyr (er enghraifft, Cod Archwilio ac Arfer Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru). Er y gallai fod yn fuddiol cyfuno mwy nag un fethodoleg, nid cyflwyno un fethodoleg adolygu na chael gwared â methodolegau cyfredol sy'n diwallu anghenion y gwasanaethau y crewyd hwy ar eu cyfer yw'r bwriad.

8. Mae llofnodwyr y Concordat yn cynnwys cyrff archwilio ac arolygu statudol ac anstatudol. Mewn cysylltiad â chyrff statudol, nid yw'r Concordat yn effeithio ar eu cylchoedd gwaith statudol. Lle y ceir unrhyw orgyffwrdd neu wrthdaro rhwng cylchoedd gwaith statudol neu anstatudol, bydd y cyrff perthnasol yn ceisio rheoli hyn yn effeithiol neu ystyried a fyddai'n briodol, o dan yr amgylchiadau, cynghori y byddai newidiadau'n ddymunol.

9. Nid yw archwiliadau o ddatganiadau ariannol yn cael eu trafod yn y Concordat.

Bod yn Gyson â dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o weithredu

10. Mae'r Concordat yn gyson â nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o wella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yng Nghymru. Mae *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* yn mynegi'r dymuniad i elwa cymaint â phosibl ar enillion effeithlonrwydd drwy gyfrwng arbedion maint neu gydweithio a chydgyssylltu mwy effeithiol rhwng asiantaethau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i gyd.

11. Mae *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* hefyd yn nodi'r galw i symleiddio'r haenau o reoleiddio ac arolygu o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan greu strwythurau cofnodi mwy eglur ac effeithiol lle y bydd darparwyr gwasanaethau yn rhydd i ganolbwyntio mwy ar ddarparu a lle y caiff defnyddwyr wybodaeth gliriach am ganlyniadau. Mae'n awgrymu hefyd y dylai cyrff sy'n llwyddo fod yn destun llai o graffu na'r rhai nad ydynt yn gwneud cystal.

12. Mae *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru* hefyd yn nodi'r galw i wneud y mwyaf o gyfraniad gwaith rheoleiddio ac arolygu i agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru drwy:

- gryfhau'r ffocws ar fuddiannau defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a'r gymuned wrth gynllunio, darparu a chofnodi gwaith rheoleiddio ac arolygu
- gwella rôl rheoleiddio ac arolygu wrth symbylu'r gwaith o wella perfformiad a hybu lledaeniad arfer da
- gwella effeithiolrwydd y cyfraniad a wna rheoleiddio ac adolygu tystiolaeth ac arbenigedd proffesiynol i'r gwaith o ddatblygu polisi

- hybu gwell cydweithio rhwng y cyrff sy'n rheoleiddio ac yn adolygu wrth gynllunio eu hadolygiadau, wrth gasglu data ac wrth rannu gwybodaeth ac arbenigedd, a fydd yn gwella eu heffeithiolrwydd tra'n lleihau'r baich ar gyrff a gânt eu harolygu.

Ymrwymiad

13. Bydd y llofnodwyr yn gweithio gyda chyrff adolygu allanol a chyda chyrff sydd â diddordeb, a'r rheini sy'n defnyddio, yn darparu, neu sy'n cyfrannu at ansawdd, diogelwch a chost-effeithiolrwydd gofal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella ac adolygu'r Concordat a'r arferion y mae'n eu hybu. Bydd y llofnodwyr yn ceisio dulliau o ymestyn yr arferion a nodir yn y Concordat i'w gwaith â chyrff eraill ac i annog cyrff perthnasol i fabwysiadu'r Concordat. Mae'r llofnodwyr wedi sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer y Concordat i oruchwylio'r gwaith o sicrhau y caiff arferion y Concordat eu gweithredu'n effeithiol.

Ardal y Concordat

14. Mae'r Concordat hwn yn berthnasol i'r llofnodwyr sydd â swyddogaeth arolygu, rheoleiddio, archwilio a chynghori ar iechyd a gofal cymdeithasol mewn cysylltiad â Chymru. Bydd llofnodwyr sydd hefyd yn ymwneud â Choncordat Lloegr yn gweithredu darpariaethau'r cytundeb hwnnw i'w gwaith yn Lloegr. Mae amcanion y ddau Concordat yn debyg iawn.

Deunydd Atodol

15. Nodir Geirfa'r Concordat yn Atodiad 3 a cheir nodyn am gylchoedd gwaith y llofnodwyr yn Atodiad 4.

Amcan Un

Caiff adolygiadau allanol eu cydgysylltu ag adolygiadau a chasgliadau eraill o ddata

Arfer 1.1 **Diffinio ac egluro cylch gwaith er mwyn sicrhau eglurder a chydweithio effeithiol**

Mae cyrff adolygu allanol yn diffinio eu cylch gwaith ac yn egluro mewn cynlluniau blynyddol a/neu adroddiadau perthnasol sut y maent yn bwriadu gweithredu'r cylch gwaith. Trosglwyddir y wybodaeth hon i gleifion ac i grwpiau o gleientiaid, grwpiau proffesiynol a rheoli perthnasol ac eraill, gan gynnwys cyrff adolygu eraill.

Arfer 1.2 **Defnyddio setiau data cyfredol**

Mae cyrff adolygu allanol yn ystyried addasrwydd setiau data cyfredol ac yn gwneud y gorau o'u defnydd dilys o wybodaeth gan gyrff adolygu eraill.

Nid yw cyrff adolygu allanol yn gwneud cais am wybodaeth bellach nes bod digonolrwydd gwybodaeth gyfredol wedi'i ystyried.

Mae cyrff adolygu allanol yn cydgysylltu eu data, eu gwybodaeth a'u gofynion datblygiadol craidd. Maent yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i gyrff a arolygir ac yn cydgysylltu eu trefniadau casglu.

Arfer 1.3 **Rhannu gwybodaeth â chyrrff eraill**

Yn amodol ar brotocolau y cytunwyd arnynt (ee mewn cysylltiad â defnyddio gwybodaeth bersonol gyfrinachol), mae cyrff adolygu allanol yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'i gilydd er mwyn ceisio osgoi dyblygu gwaith casglu data a sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r wybodaeth a gesglir.

Arfer 1.4 Cynllunio adolygiadau allanol

Mae cyrff adolygu allanol yn datblygu mecanweithiau i gydgyssylltu eu gweithgareddau arolygu, adolygu a monitro a, lle bo'n briodol, yn datblygu methodoleg ac adolygiadau ar y cyd.

Pan fo archwiliadau ac arolygiadau'n cael eu cynnal ar wahân, mae'r corff adolygu allanol yn ymgynghori â chyrff adolygu allanol eraill a chyrff sydd wedi'u hadolygu o ran sut, a chyda pwy y bydd gwybodaeth a chanfyddiadau'n cael eu rhannu.

Mae cyrff adolygu allanol yn datblygu fframwaith ar gyfer rhannu eu cynlluniau gwaith. Bydd y fframwaith yn cael ei rannu â'r GIG a chyda chyrff perthnasol eraill.

Mae cyrff adolygu allanol yn rhoi digon o rybudd ymlaen llaw os bydd adolygiad yn cael ei gynnal, gan barhau i wneud defnydd effeithiol o adolygiadau heb roi rhagrybudd a/neu drwy roi rhybudd byr o dan amgylchiadau penodol.

Arfer 1.5 Dibyniaeth ar ganfyddiadau cyrff adolygu eraill

Yn amodol ar gylch gwaith statudol, mae cyrff adolygu allanol yn datblygu dibyniaeth, lle bo'n briodol, ar ganlyniadau adolygiadau a gynhelir gan sefydliadau cymwys eraill.

Mae cyrff adolygu allanol yn ceisio osgoi dyblygu gwaith mewn meysydd sydd wedi'u hadolygu'n ddiweddar gan eraill.

Amcan Dau

Mae adolygiadau allanol o iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar brofiad cleifion, defnyddwyr gwasanaethau eraill a gofalwyr

Arfer 2.1 Cynnwys y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau

Mae gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso adolygiadau allanol o iechyd a gofal cymdeithasol yn ystyried barn a fynegydd gan gleifion, defnyddwyr gwasanaethau eraill a'u gofalwyr.

Arfer 2.2 Canolbwyntio ar gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau/'llwybrau'

Lle bo'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn canolbwyntio ar wasanaethau a ddarperir i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau eraill fel rhan o'u 'llwybr' gofal.

Arfer 2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae cyrff adolygu allanol yn sicrhau y cynhelir adolygiadau sy'n ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys anghenion a buddiannau pobl ag anabledau a chymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Arfer 2.4 Ymgynghoriad

Pan fo angen ymgynghoriad, mae cyrff adolygu allanol yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn eu Codau Ymarfer neu yng Nghod Ymarfer Llywodraeth y DU ar Ymgynghori.³

³ <http://www.cabinet-office.gov.uk/regulation/Consultation/Code.htm>

Amcan Tri

Mae adolygiadau allanol yn cefnogi gwelliannau mewn ansawdd a pherfformiad

Arfer 3.1 Cydnabod gwelliant ac arferion da

Mae cyrff adolygu allanol, drwy gynnal asesiadau gwrthrychol, yn nodi ac yn cydnabod gwelliant ac arferion gorau yn y ddarpariaeth o iechyd a gofal cymdeithasol.

Arfer 3.2 Lledaenu arferion da, annog arloesedd a dysgu o brofiad

Mae cyrff adolygu allanol yn sicrhau bod yr wybodaeth am yr arferion gorau a/neu mwyaf arloesol a nodir yn ystod yr adolygiadau yn cael ei throsglwyddo i'r asiantaethau perthnasol, drwy gyd-gysylltiad gwell a dulliau gwell o gasglu gwybodaeth.

Mae cyrff adolygu allanol yn tynnu sylw at feysydd o welliant a sut y llwyddwyd i gyflawni hynny, ac yn rhannu eu safbwyntiau a gwybodaeth am sut y gellid annog perfformiad gwell.

Pan fydd cyrff adolygu allanol yn nodi arferion anfoddhaol nad ydynt yn rhan o'u cylch gwaith, maent yn cysylltu â'r corff sy'n cael ei adolygu a/neu'r cyrff adolygu perthnasol fel y gellir cymryd camau i unioni hyn lle bo'n briodol.

Arfer 3.3 Canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Pan fo'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn canolbwyntio ar ganlyniadau o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Gall y rhain gynnwys cyfraniad, anghenion a diogelwch staff a hyfforddeion, lleihau'r risg i staff, sicrhau gwell gwerth am arian a chamau i wella priodoldeb a rheolaeth ariannol.

Arfer 3.4 Cyfrannu i ddatblygiad a chyflwyniad polisi

Defnyddir gwybodaeth berthnasol o adolygiadau allanol i lywio datblygiad polisi ac i werthuso'i gyflwyniad.

Pan fo'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn ceisio sicrhau bod eu canfyddiadau yn dod i sylw gwneuthurwyr polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, rheolwyr perfformiad, sefydliadau cynhaliol a'r rhai sy'n gyfrifol am eu cyflwyno.

Arfer 3.5 Hwyluso hunan-asesiad a gwella gwasanaethau yn barhaus

Pan fo'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn rhoi cymorth a chanllawiau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol a'u staff i ddatblygu offer ar gyfer hunanasesiad a all gyfrannu at y gwaith o fesur a gwella gwasanaethau yn barhaus.

Amcan Pedwar

Mae cyrff adolygu allanol yn gwella eu dulliau yn barhaus

Arfer 4.1 Gwerthuso a diwygio rheoliadau a safonau/meini prawf

Mae prosesau rheolaidd a phendant ar gyfer gwerthuso a diwygio'r rheoliadau, safonau, meini prawf, cwestiynau a gwybodaeth berthnasol arall a ddefnyddir gan gyrff adolygu allanol. Pan fo'n bosibl, mae cyrff adolygu allanol yn edrych am ffyrdd o roi trefn ar eu dulliau o weithredu.

Arfer 4.2 Gwerthusiad hirdymor o effaith adolygiad allanol

Mae cyrff adolygu allanol yn gwerthuso effaith eang eu hadolygiadau, gan gynnwys yr effaith ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol a'r gymuned ehangach.

Mae cyrff adolygu allanol yn gwerthuso i ba raddau y mae eu hadolygiadau wedi cyfrannu at y gwaith o leihau risg a gwella gofal iechyd a/neu welliannau perthnasol eraill.

Arfer 4.3 Asesu newidiadau o bwys neu adolygiadau newydd

Mae cyrff adolygu allanol yn asesu effaith newidiadau sylweddol ar eu prosesau adolygu a'u methodoleg.

Arfer 4.4 Casglu a gweithredu ar adborth gan y rhai sy'n derbyn neu'n darparu gofal iechyd

Mae cyrff adolygu allanol yn casglu adborth gan gyrff sydd wedi'u hadolygu, a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a/neu ganlyniadau'r adolygiadau, i helpu i lywio methodoleg yr adolygiadau yn y dyfodol.

Arfer 4.5 Ceisio safbwyntiau, barn a chyngor allanol

Pan fo'n berthnasol, mae cyrff adolygu allanol yn sicrhau bod safbwyntiau'r rhai sy'n derbyn ac yn darparu gofal yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am eu dulliau adolygu, ac maent yn datblygu ffyrdd o reoli'r prosesau perthnasol ar y cyd â chyrff adolygu eraill.

Arfer 4.6 Rhannu arferion da â chyrff adolygu allanol eraill

Mae cyrff adolygu allanol yn rhannu eu methodoleg ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

Arfer 4.7 Arloesi ac Ymchwil

Mae cyrff adolygu allanol yn cefnogi arloesedd buddiol a datblygiad strategaethau ymchwil ar y cyd a phrosiectau mewn meysydd perthnasol.

Amcan Pump

Mae adolygiadau allanol yn annibynnol, yn gyson a theg

Arfer 5.1 Rheoliadau a safonau cyson i'r sawl sy'n darparu gofal

Mae cyrff adolygu allanol yn asesu sefydliadau yn erbyn rheoliadau, safonau a meini prawf tryloyw sy'n gymwys, cyn belled ag sy'n ymarferol, i'r holl ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol o fewn eu cylch gwaith.

Pan fo'n bosibl, bydd y sefydliadau sydd i'w hadolygu yn derbyn y safonau a'r meini prawf asesu cyn unrhyw ymweliad.

Arfer 5.2 Safonau cyson ar gyfer cyrff adolygu allanol

Mae cyrff adolygu allanol yn penderfynu ar eu meini prawf asesu yn unol â safonau y cytunir arnynt a, lle bo'n briodol, yn ystyried y safonau neu'r meini prawf a bennir gan gyrff adolygu eraill.

Arfer 5.3 Meini prawf sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae cyrff adolygu allanol yn seilio meini prawf archwilio ac arolygu ar dystiolaeth, gan gynnwys ymchwil sydd wedi'i chyhoeddi pan fydd ar gael.

Bydd meini prawf adolygu allanol yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn barhaus, yn ôl yr angen, trwy ymgynghori ag eraill sydd â diddordeb.

Amcan Chwech

Mae adolygiadau allanol wedi'u targedu ac maent yn gymesur

Arfer 6.1 Wedi'u targedu at gapasiti a pherfformiad

Pan fo'n briodol, wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith, mae cyrff adolygu allanol yn ystyried ffactorau fel natur, maint a pherfformiad y corff sy'n cael ei arolygu ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

Arfe 6.2 Wedi'i bwysoli i'r risg/Cymesuredd o ran costau a manteision

Mae cyrff adolygu allanol yn datblygu fframwaith i'w helpu i gynllunio eu gweithgareddau yn ôl lefelau perthynol y risg - er enghraifft i drefniadaeth y gwasanaeth, i'r cleifion a defnyddwyr eraill, neu fethiant i berfformio neu wella.

Yn amodol ar gylch gwaith statudol, rhoddir ystyriaeth i leihau, yn gyfrannol, weithgaredd adolygu mewn meysydd sydd â risg a aseswyd i fod yn is (er enghraifft i gleifion, gofawyr, defnyddwyr gwasanaeth eraill neu staff) neu pan arolygiadau diweddar wedi rhoi adroddiadau ffafriol.

Wrth ddod i benderfyniadau o'r fath mae'r corff adolygu allanol yn ystyried yr angen parhaol i nodi a dysgu o arferion gorau.

Yn amodol ar gylch gwaith statudol, wrth wneud argymhellion, mae'r cyrff adolygu allanol, mewn ymgynghoriad â darparwyr a/neu gomisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn ystyried, lle bo'n briodol, gydbwysedd / cymesuredd o ran costau a manteision gweithredu.

Arfer 6.3 Adolygiad allanol hyblyg ac ymatebol

Mae cyrff adolygu allanol yn ymateb yn hyblyg i amrywiol amgylchiadau gwahanol sefydliadau a defnyddwyr gwasanaeth. Mae cyrff adolygu allanol yn ymateb yn gymesur fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

Arfer 6.4 Asesu effaith polisiau cyrff adolygu allanol

Mae cyrff adolygu allanol yn asesu a, lle bo'n briodol, yn ceisio rhagweld effaith eu polisiau a/neu fentrau newydd ar y rhai y maent yn eu hadolygu.

Amcan Saith

Mae adolygiadau allanol yn dryloyw ac yn atebol

Arfer 7.1 Safonau a methodoleg sydd wedi'u cyhoeddi

Mae cyrff adolygu allanol yn cyhoeddi methodoleg glir, gan gynnwys unrhyw feini prawf asesu sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a gwerthoedd ac offer ystadegol a ddefnyddir i wneud penderfyniadau.

Cyhoeddir diwygiadau i reoliadau, safonau a/neu feini prawf ymlaen llaw a phennir amserlenni ar gyfer eu gweithredu.

Arfer 7.2 Adroddiadau Drafft

Fel rheol, mae cyrff sydd wedi cael eu hadolygu yn cael adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi ac yn cael cyfle i roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol.

Arfer 7.3 Y broses gwyno ac apelio

Mae cyrff adolygu allanol yn cyhoeddi prosesau ar gyfer delio â chwynion a, lle bo'n berthnasol, apelau.

Arfer 7.4 Cyhoeddi Adroddiadau

Pan fydd cyrff adolygu allanol yn cyhoeddi eu hadroddiadau, gwnânt hynny mewn ffyrdd sy'n hawdd i'r rheini yr effeithir arnynt gael gafael arnynt, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae cyrff adolygu allanol yn cyhoeddi adroddiadau yn unol â'u Cynllun Iaith Gymraeg a, lle bo'n briodol, mewn amrywiaeth o fformatau (gan gynnwys ieithoedd perthnasol eraill).

Amcan Wyth

Mae cyrff adolygu allanol yn defnyddio dulliau cydgysylltiedig a chymesur o weithredu

Arfer 8.1 Fframwaith cynllunio gweithredu safonol

Caiff argymhellion a chynlluniau gweithredu eu trefnu lle bo'n briodol a chânt eu monitro'n gydgysylltiedig wrth eu gweithredu drwy gynlluniau busnes cyrff sydd wedi'u hadolygu.

Pan fo'n ymarferol, mae pob corff adolygu allanol yn datblygu fframwaith safonol i helpu gyda chynllunio gweithredu effeithiol.

Arfer 8.2 Amrywiaeth o ddulliau gorfodi

Pan fo'n briodol i'w cylch gwaith, mae cyrff adolygu allanol yn datblygu amrywiaeth o ddulliau gorfodi a all ymateb i amrywiol ofynion cyrff sy'n cael eu hadolygu a buddiannau defnyddwyr gwasanaeth.

Cwmpesir gorfodi statudol gan weithdrefnau cyffredin yn unol â fframwaith cyfreithiol pob corff adolygu allanol.

O ran gorfodi anstatudol mae cyrff adolygu allanol yn defnyddio'r dulliau mwyaf priodol/cymesur sy'n gyson â gweithredu effeithiol.

Arfer 8.3 Pwerau Gorfodi

Mae cyrff adolygu allanol sydd â phwerau gorfodi yn mabwysiadu Concordat Gorfodi Llywodraeth y DU⁴ neu lle bo'n berthnasol, ganllawiau a/neu brotocol sy'n benodol i Gymru.

⁴ www.cabinet-office.gov.uk/regulation/publicsector/enforcement/enforcement.htm

Amcan Naw

Mae adolygwyr allanol yn meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau addas ac wedi'u hyfforddi'n briodol

Arfer 9.1 Adolygwyr â sgiliau addas

O ran cyrff adolygu allanol nad ydynt yn archwilwyr, gwneir trefniadau i sicrhau bod yr adolygiadau'n cwmpasu'r amrywiaeth angenrheidiol o sgiliau, cefndir a dealltwriaeth ddiwylliannol.

Arfer 9.2 Hyfforddiant a chymwysterau

Mae cyrff adolygu allanol yn sicrhau bod adolygwyr yn meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol. Mae cymhwysedd parhaol yr adolygwyr yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae adolygwyr yn cael pob cymorth i gynnal a datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

Arfer 9.3 Adborth ynghylch adolygiadau allanol

Mae cyrff adolygu allanol yn ceisio adborth rheolaidd ar gynnwys a phroses yr adolygiadau allanol. Ymdrinnir â chwynion yn unol â gweithdrefnau penodedig.

Amcan Deg

Mae cyrff adolygu allanol yn monitro eu harferion yn barhaus yn unol â'r Concordat

Arfer 10.1 Gweithredu arferion

Mae cyrff adolygu allanol yn gweithredu'r arferion yn y concordat hwn yn unigol neu, lle cytunir ar hynny, ar y cyd. Maent yn cydnabod bod gan bob llofnodwr ei swyddogaethau penodol ei hunan ac felly mae'n ystyried goblygiadau arferion arbennig ar gyfer cyrff adolygu eraill.

Arfer 10.2 Arddangos gweithredu

Mae cyrff adolygu allanol yn arddangos sut y maent yn gweithredu'r arferion yn y Concordat. Maent yn blaenoriaethu'r camau yn ôl yr angen ac yn nodi, gyda'r rhesymau, (e.e. cylch gwaith statudol), unrhyw arferion nad oes angen unrhyw weithredu penodol arnynt.

Pan fo'n briodol, mae cyrff adolygu allanol yn mesur effaith y gweithredu ar gyrff sydd wedi'u hadolygu, ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ar staff y rheng flaen a staff eraill, ar gleifion, cleientiaid a gofalwyr, ac ar werth am arian.

Arfer 10.3 Cyfathrebu â'r rhai sy'n darparu neu'n derbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol

Mae cyrff adolygu allanol yn trosglwyddo'r Concordat yn eang er mwyn sicrhau bod pawb sydd â diddordeb mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r arferion y mae'n eu hyrwyddo. Mae cyrff adolygu allanol yn gwahodd y rhai sydd wedi'u hadolygu i roi eu sylwadau ar weithredu'r Arferion neu eu herio os oes ganddynt bryderon neu awgrymiadau i'w gwneud.

Arfer 10.4 Monitro'r Gweithredu

Mae cyrff adolygu allanol yn sefydlu prosesau ar gyfer monitro'r gweithredu ac ar gyfer arddangos arferion yn y Concordat.

Arfer 10.5 Adolygu'r Concordat

Mae'r Concordat yn cael ei adolygu gan ei lofnodwyr yn flynyddol o leiaf. Mae'r gwersi a ddysgir a'r arferion da a nodir yn cael eu lledaenu er mwyn cael y manteision gorau i gyrff sy'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer staff y rheng flaen, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Llofnodwyr y Concordat

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Arolygiaethau
 - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
 - Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
 - Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Cronfa Risg Cymru
- Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Y Comisiwn Gofal Iechyd
- Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion

Llofnodwyr Cyswllt y Concordat

- Cydffederasiwn y GIG - Cymru
- Cynghorau Iechyd Cymuned
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Ôl-raddedigion, Coleg Meddygaeth, Bioleg, Gwyddorau Bywyd a Iechyd Cymru Prifysgol Caerdydd
- Ystadau Iechyd Cymru

Geirfa'r Concordat

Bwriad yr eirfa hon yw esbonio rhai termau a ddefnyddir yn y Concordat. Nid yw hyn yn awgrymu bod y llofnodwyr wedi mabwysiadu terminoleg gyffredin, er ei bod yn debygol y rhoddir sylw i'r defnydd ohoni wrth i'r Concordat gael ei gweithredu'n fwyfwy.

Archwilio (Ariannol)	Mae hyn yn delio ag elfen ariannol gwaith yr archwilwyr: archwilio'r cyfrifon a'r systemau a'r prosesau ariannol gwaelodol (gan gynnwys, mewn rhannau penodol o'r sector cyhoeddus, a wariwyd arian cyhoeddus i'r dibenion y'i bwriadwyd) a'r agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol, fel rheoli mewnol a rheoli risg, ac uniondeb a phriodoldeb
Archwilio (Perfformiad)	Mae hyn yn ymwneud ag elfen perfformiad gwaith yr archwilwyr: gwerth am arian mewn gwasanaethau, swyddogaethau, rhaglenni neu brosiectau penodol, a'r systemau a'r prosesau a sefydlir gan y corff i reoli ei weithgarwch a'i ddefnydd o adnoddau ac i baratoi a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.
Gwerthuso	Dadansoddiad trwyadl, annibynnol o weithgareddau parhaus neu wedi'u cwblhau sy'n ategu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac atebolrwydd wrth reoli
Cyrff adolygu allanol	I ddibenion y Concordat, y cyrff arolygu, rheoleiddio, archwilio a chynghorol sydd wedi ymrwymo i'w arferion
Gofal iechyd	Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer atal, dadansoddi neu drin salwch a diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â hyn

Arolygu	Y broses graffu gyfnodol, wedi'i thargedu, i ddarparu archwiliad annibynnol a chofnodi a yw gwasanaethau yn cyrraedd safonau perfformiad cenedlaethol a lleol, gofynion deddfwriaethol a phroffesiynol, ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau
Llwybr gofal	Proses sy'n cwmpasu pob elfen o ofal
Rheoleiddio	Dyma'r broses lle mae gweithgarwch y sector cyhoeddus a grymoedd y farchnad yn cael eu cyfeirio er budd y cyhoedd. Mae'n cynnwys "awdurdodi" neu "gofrestru" cyrff i gynnal gweithgareddau wedi'u rheoleiddio a monitro i ba raddau y maent yn cydymffurfio â gofynion statudol a safonau proffesiynol. Gall gynnwys hefyd gymell gweithgareddau gorfodol a rheoli prisiau
Adolygu	Y broses bwrpasol, systematig o gasglu a dadansoddi data sy'n arwain at benderfyniad am berfformiad testun yr adolygiad
Safonol	Lefel perfformiad derbyniol, cyraeddadwy a phenodedig, y gellir mesur perfformiad gwirioneddol yn ei erbyn

Cylchoedd gwaith y llofnodwyr

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Sefydlwyd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a'i gangen weithredol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae'n gyfrifol am ddiogelu pob dinesydd, gan gynnwys gweithwyr, rhag peryglon i iechyd neu ddiogelwch, yn sgil gweithgareddau sy'n ymwneud â'r gwaith. Corff rheoleiddio a gorfodi yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; mae'r elfen orfodi yn cael ei rhannu fel y'i diffinnir gan reoliadau ydag awdurdodau lleol. Mae cyrff iechyd yn perthyn i gylch gwaith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn ogystal â chartrefi nyrsio a chartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol. Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol yw gorfodi mewn cartrefi gofal eraill.

Gwefan: www.hse.gov.uk

Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion

Ffurfiwyd y Bwrdd hwn yn 2003 i oruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion. Mae wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg, er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol wrth ddarparu addysg neu ddeddfwriaeth reoleiddiol.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth fel awdurdod cymwys proffesiynol yn y DU i oruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion. Mae'n:

- gwella'r ffordd y goruchwylir addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion
- cadarnhau ac yn cryfhau sefyllfa'r Colegau a'r Cyfadranau Brenhinol meddygol fel elfennau hanfodol o'r broses addysg a hyfforddi
- codi safonau ac yn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant meddygol i raddedigion
- darparu trefniadau trwyadl ar gyfer sicrhau parhad yr ansawdd uchaf mewn addysg feddygol i raddedigion yn y DU

- darparu strwythurau a phrosesau wedi'u rheoli i sicrhau bod pob buddiant yn cael ei gynrychioli mewn addysg feddygol i raddedigion
- cydweithio'n agos â chyrrff addysgol a rheoleiddiol cysylltiedig
- rheoleiddio hyfforddiant arbenigol a chyffredinol o dan yr un canllawiau.

Gwefan: www.pmetb.org.uk

Cronfa Risg Cymru

Mudiad cydfuddiannol yw Cronfa Risg Cymru, sy'n cael ei ariannu gan holl Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol Cymru. Mae wedi'i leoli yn Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn Llanelwy, Sir Ddinbych.

Dyma brif swyddogaethau Cronfa Risg Cymru:

1. Ad-dalu Colledion

Ad-dalu Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol am wariant yn sgil ceisiadau yn eu herbyn, neu pan ddaw colled drwy ffyrdd eraill. Darperir yswiriant ar gyfer pob risg; ymhlith yr ychydig eithriadau mae Mentrau Cyllid Preifat, yswiriant ceir a gweithgareddau cynhyrchu incwm.

Er mwyn cymeradwyo cais, rhaid i sefydliadau fodloni nifer o feini prawf, sy'n cynnwys dangos pa gamau a gymerwyd i atal y peth rhag digwydd eto.

2. Rheoli Ceisiadau

Rheoli ceisiadau ar ran Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

3. Annog Arferion Rheoli Risg Da

Cefnogi datblygiad systemau rheoli risg drwy roi cyngor, datblygu addysg wrth reoli risg ym maes gofal iechyd a hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth am arferion da a gwersi a ddysgir drwy gyfarfodydd y Rhwydwaith Rheolwyr Risg a Rheolwyr Ceisiadau.

4. Asesu Perfformiad Rheoli Risg

Defnyddio Safonau Rheoli Risg Cymru i nodi meini prawf ar gyfer arferion rheoli risg da a mesur i ba raddau y cydymffurfir â'r meini prawf hynny drwy archwiliad.

Mae Aseswyr Cronfa Risg Cymru yn mesur perfformiad sefydliad wrth reoli risg yn erbyn y Safonau bob blwyddyn.

Mae adroddiad manwl yn cael ei lunio ar gyfer pob sefydliad, y Cynulliad a Bwrdd Cynghori Cronfa Risg Cymru.

Gwefan: <http://howis.wales.nhs.uk/gsiteCW/home.cfm?orgid=287>

Swyddfa Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw pennaeth Swyddfa Archwilio Cymru, ac ef sy'n gyfrifol am archwilio'r cyfrifon a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y cyrff cyhoeddus cysylltiedig a noddir a'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys cyrff lleol y GIG. Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y pŵer i gynnal astudiaethau o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) y sefydliadau hynny a chyrrff yn y sectorau addysg bellach ac uwch.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae ganddo ddyletswyddau i gynnal astudiaethau gwerth am arian cymharol cenedlaethol ar draws llywodraeth leol ac arolygu awdurdodau Gwerth Gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

Gwefan: www.wao.gov.uk/cymraeg

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Lansiwyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar 1 Ebrill 2004 i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Diben AGIC yw rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliant parhaus o ran ansawdd a diogelwch y gofal a ariennir gan GIG Cymru. Uned annibynnol yw'r Arolygiaeth o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chydabyddir ei hannibyniaeth drwy ddirprwyaethau a wnaed o dan Ddeddf 2003.

Mae AGIC yn cynnal arolygiadau o'r ddarpariaeth gofal iechyd gan gyrrff GIG Cymru ac ar eu cyfer, yn ogystal ag ymchwiliadau i'r ddarpariaeth honno. Mae'r rhaglen arolygu yn ymwneud ag ansawdd, safonau clinigol cenedlaethol, a diogelwch cleifion ac mae'n canolbwyntio ar lywodraethu clinigol, gofal cleifion ar draws asiantaethau a sectorau a chryfhau cyfranogiad y cyhoedd.

Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae AGIC yn rhoi ystyriaeth i'r gofal iechyd sydd ar gael a pha mor hawdd y mae i'w ddefnyddio, ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal iechyd, sut y rheolir gofal iechyd a darbodusrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaethau. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod hawliau a lles plant yn cael eu diogelu ac mae ganddi ddyletswydd i gydweithredu â'r Comisiwn Gofal Iechyd.

Gwefan: www.agic.cymru.gov.uk/content/template.asp?ID=/index.asp

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

Is-adran o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, sydd ag annibyniaeth weithredol gydnabyddedig yn ei gweithgareddau proffesiynol. Mae ASGC yn gyfrifol am reoleiddio:-

- Cartrefi gofal i oedolion - gan gynnwys cartrefi gofal â chyfleusterau nyrsio;
- Gofal iechyd preifat a gwirfoddol gan gynnwys ysbytai annibynnol;
- Asiantaethau nyrsio;
- Meddygon Preifat;
- Asiantaethau Gofal Cartref;
- Cynlluniau Lleoli Oedolion;
- Cartrefi plant;
- Gwasanaethau gofal dydd i blant - gan gynnwys meithrinfeydd dydd, gofalwyr plant, grwpiau chwarae, clybiau y tu allan i oriau ysgol, crèches a chynlluniau chwarae;
- Canolfannau Preswyl i Deuluoedd;
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu;
- Lleoliadau Addysg sy'n darparu llety i bobl ifanc o dan 18 oed -
Ysgolion Preswyl
Ysgolion Preswyl Arbennig
Colegau Addysg Bellach.

Maes o law, bydd rheoliadau o dan y Ddeddf Safonau Gofal yn cael eu hymestyn i gynnwys asiantaethau meddygol annibynnol ac asiantaethau cymorth mabwysiadu.

Mae pedair prif swyddogaeth ynghlwm wrth rôl ASGC fel rheoleiddiwr gwasanaethau gofal:

- Cofrestru - ystyried ceisiadau i sicrhau y bodlonir gofynion cofrestru cyn y caniateir i wasanaeth weithredu;
- Arolygu - sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gyrraedd y safonau gofynnol i gadw statws cofrestru;
- Cwynion - ymchwilio i bryderon ynghylch gweithredu gwasanaeth a reoleiddir;
- Gorfodi - cymryd camau cyfreithiol lle y bo'n briodol lle mae gwasanaethau a reoleiddir yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol.

Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn darparu ar gyfer dau fath cyffredinol o gam gorfodi lle nad yw darparwr yn cyflawni ei rwymedigaethau:

- Gall y Cynulliad erlyn yn droseddol, neu roi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol, lle y bo'n ystyried bod trosedd statudol wedi digwydd, bod amodau wedi'u torri neu bod trosedd yn erbyn y rheoliadau wedi digwydd;
- Gall y Cynulliad gymryd camau sifil a all gynnwys gwrthod cofrestru; gorfodi, amrywio neu gael gwared ag amodau; neu, yn y pen draw, ganslo cofrestriad, ac mae gweithdrefnau'n bodoli i wneud hyn ar frys ac yn y ffordd arferol.

Gwefan: www.asgc.cymru.gov.uk/index.asp

Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Uned o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, gyda swyddogaethau a phwerau arolygu a ddirprwywyd yn ffurfiol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ac annibyniaeth gydnabyddedig yn ei gweithgareddau proffesiynol. Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol ac eraill, yn gwerthuso perfformiad, yn hyrwyddo arferion da a datblygiad gwasanaethau ac yn rhoi cyngor proffesiynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwefan: www.ssiw.wales.gov.uk

Y Comisiwn Gofal Iechyd

Enw cyfreithiol y Comisiwn Gofal Iechyd yw'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd. Cafodd ei ffurfio gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 a chafodd ei lansio ar 1 Ebrill 2004. Mae'r Comisiwn Gofal Iechyd yn hyrwyddo gwelliant yn ansawdd y GIG a gofal iechyd preifat a gwirfoddol ar draws Cymru a Lloegr.

Gwefan:

www.healthcarecommission.org.uk/cymraeg/fs/en?CONTENT_ID=4000152&chk=2WZ0so

Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl

Sefydlwyd Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl ym 1983. Ei swyddogaethau yw:

- adolygu'n rheolaidd sut y gweithredir Deddf Iechyd Meddwl 1983 mewn perthynas â chleifion y mae'r Ddeddf hon yn debygol o effeithio arnynt.
- ymweld â chleifion a gedwir dan y Ddeddf mewn ysbytai a chartrefi nyrzio meddwl a'u cyfweld yn breifat.
- ymchwilio i gwynion sy'n perthyn i gylch gwaith y Comisiwn.
- adolygu penderfyniadau i beidio â chaniatáu i gleifion a gedwir mewn ysbytai diogelwch lefel uchel gael gweld eu post.
- penodi ymarferwyr meddygol ac eraill i roi ail farn mewn achosion lle mae hyn yn ofynnol gan y Ddeddf.
- cyhoeddi a rhoi adroddiad gerbron y Senedd bob 2 flynedd.
- monitro'r ffordd y gweithredir y cod ymarfer a baratowyd o dan y Ddeddf a chynnig gwelliannau i Weinidogion.

Gwefan: www.mhac.org.uk

Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru

Mae Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru yn tynnu ynghyd y meddygon sy'n arwain gweithgareddau pob un o'r Colegau a'r Cyfadrannau Brenhinol Meddygol yng Nghymru sydd â'u pencadlys yn Lloegr.

Mae 15 o Golegau Brenhinol meddygol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, Iwerddon a'r Alban a 5 Cyfadrannau o'r Colegau hynny sy'n cynrychioli disgyblaethau meddygol penodol. Yn gyffredinol, ymhlith yr amcanion a'r dibenion y crewyd y Colegau ar eu cyfer, mae hyrwyddo gwyddoniaeth ac arfer meddygaeth a hybu hyfforddiant, astudiaethau ac ymchwil ym maes meddygaeth. Bu ganddynt rolau pwysig o ran addysgu a phennu safonau ar gyfer hyfforddi meddygon, ac mae'r rolau hynny'n parhau. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â datblygu graddedigion a datblygiad proffesiynol parhaus.

Dros gyfnod sylweddol, bu Aelodaeth neu Gymrodoriaeth, fel y bo'n briodol, o un o'r Colegau neu'r Cyfadrannau hyn, neu ennill cymhwyster cyfatebol o'r tu hwnt i'r DU ac Iwerddon, yn un o'r gofynion ar gyfer cael eich penodi i Gofrestr Arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac, felly, yn ofyniad ar gyfer cael eich penodi'n ymgynghorydd mewn arbenigaeth feddygol yn y DU. Er bod newidiadau yn rheoliadau a datblygiad y Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion yn dod ag amrywiadau i'r sefyllfa hon, bydd rolau'r Colegau Brenhinol meddygol wrth:

- Bennu neu roi cyngor ar safonau ar gyfer hyfforddi arbenigwyr ac ymarferwyr cyffredinol;
- Archwilio meddygon yn ystod eu hyfforddiant ôl-radd;
- Parhau i ddatblygu'n broffesiynol;

yn dal i fod yn elfennau hanfodol o'r prosesau addysg a hyfforddi meddygol.

Yng Nghymru, ymhlith amrywiaeth rolau Academi Colegau Brenhinol Cymru, mae rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u Prif Swyddog Meddygol ar bob mater sy'n ymwneud â'r gweithlu meddygol yng Nghymru, hyfforddi graddedigion i fod yn feddygon a goblygiadau a gofynion meddygol gofal iechyd a pholisïau cysylltiedig eraill a'u gweithredu. I'r dibenion hyn, mae'r Academi yn cydgysylltu gwaith y Colegau a'r Cyfadrannau Brenhinol Meddygol yng Nghymru.

Mae gan yr Academi berthynas gref ag Academi Colegau Brenhinol Meddygol y DU. Yn y ffordd hon, mae Academi Colegau Cymru yn darparu cyswllt rhwng gwaith torfol y Colegau yng Nghymru a gwaith Colegau'r DU.

Cysylltwch ag: Ysgrifenyddiaeth yr Academi ar 02920 823777.

I gael rhagor o gopïau cysylltwch â:

Ken Alexander
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ